

Cynnig i adolygu'r Ddarpariaeth Addysg Gynradd yn ardaloedd Mynyddgarreg a Gwenllian

Adroddiad Ymgynghori



sirgar.gov.uk

Yr Adain Moderneiddio Ysgolion

Sara Griffiths, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk

Ffôn: 01267 246618

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	1
Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol ..	5
Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig	25
Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn	27
Ymgynghori â'r Disgyblion.....	30
Opsiynau Eraill.....	33

Atodiadau

Atodiad A – Cynllun Busnes

Atodiad B – Sylwadau Disgyblion

Crynodeb Gweithredol

Y Cyfnod Ymgynghori

Ar 11 Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynnig i:

- Peidio â chynnal Ysgol Gynradd Mynyddgarreg o 31 Awst, 2021.
- O 1 Medi 2021, bydd pob disgylb wedi'i gofrestru yn Ysgol Gymraeg Gwenllian, gan weithredu ar y ddu safle (Ysgol Gymraeg Gwenllian a hen Ysgol Gynradd Mynyddgarreg) gan gynyddu nifer y lleoedd i 178 + 17 o leoedd meithrin.
- Ailddynodi dalgylch Ysgol Gymraeg Gwenllian er mwyn cynnwys dalgylch hen Ysgol Gynradd Mynyddgarreg o 1 Medi 2021.
- Adleoli Ysgol Gymraeg Gwenllian i safle newydd a chynyddu nifer ei lleoedd i 210 + 30 o leoedd meithrin o fis Medi 2023, pan gynigir bod yr ysgol yn symud i'w hadeilad newydd.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 11 Ionawr 2021, yr un pryd â chyhoeddi'r cynnig, a daeth i ben ar 16 Gorffennaf 2021. Daeth 476 o ymatebion i law (ac eithrio'r ymatebion gafwyd gan Estyn a thrwy'r digwyddiadau ymgynghori â disgylion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law			
Arolwg ar-lein	E-bost	Llythyr	Cyfanswm
336	62	78	476

Rhaid nodi bod 396 o'r 476 o sylwadau wedi dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cafwyd un ymateb yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori ond mae wedi'i gynnwys fel rhan o'r broses ymgynghori.

Derbyniwyd gohebiaeth cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori. Fodd bynnag, cytunwyd y gellid cynnwys y rhain fel rhan o'r broses ymgynghori. Derbyniwyd cyfanswm o 78 o lythyrau ac 1 e-bost adeg hynny ac maent wedi'u cynnwys yn y tabl uchod. Mae dau lun hefyd wedi dod i law cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori ac wedi'u cynnwys yn y crynodeb o'r ymatebion ddaeth i law ac yn yr ymatebion cysylltiedig â'r Awdurdod Lleol. Mae copïau o'r lluniau a gyflwynwyd gan ddisgyblion i'w gweld yn Atodiad B.

Digwyddiadau Ymgynghori

Oherwydd goblygiadau parhaus pandemig y Coronafeirws, fe'n cynghorwyd i ohirio pob digwyddiad lle'r oedd rhyngweithio rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach, ac o ganlyniad cafodd sesiynau galw heibio rhithwir eu cynnal drwy Microsoft Teams.

Anffurfiol

Cynhaliwyd sesiynau galw heibio anffurfiol rhithwir cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori ffurfiol gyda rhanddeiliaid perthnasol.

Ffurfiol

Cynhaliwyd sesiwn galw heibio ffurfiol rithwir ar **25 Ionawr 2021 am 4.30pm am gyfnod o ddwy awr**. Mynychodd 22 o randdeiliaid sesiwn galw heibio yr ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law

Mae'r ymatebion a gafwyd wedi'u categoriiddio i'r themâu canlynol:

Cefnogol

- Thema 1 - Dim rheswm
- Thema 2 - Cefnogaeth i'r Cynnig
- Thema 3 - Darpariaeth Gofal Plant
- Thema 4 - Effaith ar y Gymraeg
- Thema 5 - Effaith ar yr Amserlen Ddisgwyliedig
- Thema 6 - Ffafrio Ysgol Fach
- Thema 7 - Pwysau Ariannol
- Thema 8 - Enw'r Ysgol Newydd
- Thema 9 - Addysg Disgyblion yn y Dyfodol
- Thema 10 - Cyfleusterau Cymunedol
- Thema 11 - Y Sefyllfa Bresennol
- Thema 12 - Cyflwr ac Addasrwydd Adeilad Presennol yr Ysgol

Pryderon

- Thema 1 - Effaith Gymunedol
- Thema 2 - Y Sefyllfa Bresennol
- Thema 3 - Effaith ar Amseroedd a Phellter Teithio Disgyblion
- Thema 4 - Ffafrio Ysgol Fach
- Thema 5 - Dim rheswm
- Thema 6 - Effaith ar y Gymraeg
- Thema 7 - Pryderon ynghylch ysgol/dosbarthiadau mawr
- Thema 8 - Safonau Addysg
- Thema 9 - Llwyddiant Cylch Meithrin Mynyddgarreg
- Thema 10 - Cyflwr ac Addasrwydd Adeilad Presennol Ysgol Mynyddgarreg
- Thema 11 - Ymgynghori yn ystod pandemig

- Thema 12 - Safon y Ddogfen Ymgynghori a Gwybodaeth Anghywir
- Thema 13 - Pwysau Ariannol
- Thema 14 - Dewis Ysgol Fach yn y Dyfodol
- Thema 15 - Newid yn yr Ystod Oedran
- Thema 16 - Effaith y Cynnig ar Dref a Thrigolion Cydweli
- Thema 17 - Trosglwyddo i Ysgolion Eraill
- Thema 18 - Dyluniad yr Ysgol Newydd
- Thema 19 - Enw'r Ysgol Newydd
- Thema 20 - Effaith y Cynnig/Sïon
- Thema 21 - Amseru'r Ymgynghoriad
- Thema 22 - Gwrth-ddweud y Polisi
- Thema 23 - Safleoedd Ysgol Diangen
- Thema 24 - Disgyblion ADY

Crynodeb Cyffredinol

Cefnogol	18%	Ddim yn gefnogol	82%
----------	-----	------------------	-----

Gweithdai

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 16 Gorffennaf 2021 cynhaliwyd gweithdy i ddadansoddi'r sylwadau a ddaeth i law.

Sylwadau eraill a gafwyd

Cynllun Busnes

Yn ogystal â sylwadau a dderbyniwyd, cyflwynwyd Cynllun Busnes ar gyfer Ysgol Gynradd Mynyddgarreg yn ystod y Cyfnod Ymgynghori ffurfiol. Gellir gweld y Cynllun Busnes llawn yn Atodiad A.

Deiseb ac Ystadegau Tudalen Facebook

Roedd deiseb ar-lein "Achub Ein Hysgol – Rhoi Stop ar gau Ysgol Mynyddgarreg" a grëwyd ar 16/01/2021 wedi derbyn 854 o lofnodion erbyn 10:48 ar 21/02/21 a 1027 o lofnodion erbyn 4.00pm ar 21/7/21.

Hefyd roedd 314 wedi hoffi'r Dudalen Facebook "Mynyddgarreg – SOS – Achub ein Hysgol" am 4.00pm ar 21/07/21.

Y Camau Nesaf

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet (a elwid gynt yn Fwrdd Gweithredol) a allai benderfynu cyhoeddi'r cynnig fel yr ymgynghorwyd yn ei gylch

gydag addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r sefyllfa bresennol, neu ail-lunio'r cynnig yn sylweddol ac ailymgynghori.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen i gyhoeddi Hysbysiad Statudol, caiff hwn ei gyhoeddi maes o law.

Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
Sylwadau Cefnogol a Gafwyd				
1.	Dim rheswm Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu cefnogaeth.		46	10%
2.	Cefnogaeth i'r cynnig Roedd ymatebwyr yn cydnabod yr angen am fuddsoddi a manteision cael ysgol newydd a modern sy'n addas ar gyfer dysgu yn yr 21 ^{ain} ganrif.	<p>Un o nodau strategol y Rhaglen Moderneiddio Addysg yw datblygu seilwaith ym mhob ysgol sy'n ei galluogi i ddarparu addysg yn yr 21^{ain} ganrif ac sy'n cefnogi gwireddu'r amcanion craidd ar gyfer codi safonau addysgol a chynnal perfformiad o safon uchel.</p> <p>Mae disgwyl i'r ysgolion hynny a gynlluniwyd fel eu bod yn bodloni'r galwadau presennol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddulliau addysgu sy'n ysbrydoledeg ac o safon uchel, a bydd hyn oll yn bosibl drwy wireddu'r cynnig hwn, os caiff ei dderbyn.</p>	29	6%
3.	Darpariaeth gofal plant Mynegodd ymatebwyr bryder nad oedd cynlluniau i symud	Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd y Cylch Meithrin ar gyfer addysg a datblygiad plant ac	6	1%

	Cylch Meithrin Mynyddgarreg i'r safle newydd arfaethedig, ac y dylid ystyried hyn yn gynnar yn y broses os yw'n bosibl.	mae'n ystyried yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer adleoli'r Cylch Meithrin pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.		
4.	Effaith ar y Gymraeg Nododd ymatebwyr fod angen parhau i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned i gefnogi ei chynaliadwyedd yn y dyfodol yn yr ardaloedd	Mae cefnogi hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned i gefnogi ei chynaliadwyedd yn y dyfodol o fewn yr ardaloedd yn hollbwysig. Bydd Ysgol Gwenllian mewn sefyllfa i sicrhau bod plant o ardal Mynyddgarreg yn cael addysg cyfrwng Cymraeg o safon, a fydd yn sicrhau bod disgylion yn dod yn gwbl ddwyieithog, nid yn unig yn addysgol, ond hefyd yn gymdeithasol. Bydd yr ysgol yn canfod cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y cartref ac yn y gymuned, ac yn annog hynny. Bydd yr ardaloedd cyfagos yn cael cyfleoedd i fod yn rhan amlwg o bob agwedd ar fywyd yr ysgol, a'r ysgol ym mywyd y cymunedau.	4	1%
5.	Effaith ar yr Amserlen Ddisgwylledig Gofynnodd ymatebwyr yngylch effaith yr ymgyngħoriad parhaus ar yr amserlen a goblygiadau hyn ar ddatblygiad newydd yr ysgol.	Ar hyn o bryd mae'r amserlen ar gyfer y datblygiad ysgol newydd arfaethedig yn cael ei hadolygu, er mwyn ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys y cyfnod ymgyngħori.	3	1%

6.	Ffafrio ysgol fach Roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r angen am adeilad ysgol newydd ond yn gobeithio y gellid cadw manteision ysgol fach a'i hethos.	Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn y gellid cadw ethos yr ysgol fach o fewn datblygiad newydd yr ysgol a byddai'n annog y ddwy ysgol i cydweithio i gryfhau ac adeiladu ar berthnasoedd sefydledig.	2	0.4%
7.	Pwysau Ariannol Nododd ymatebwyr eu bod yn llwyr gefnogi'r cynnig, a hefyd dywedasant nad oedd ysgolion bach yn gynaliadwy oherwydd y costau rhedeg uchel a'r baich ariannol oedd arnynt	Mae'r gefnogaeth yn cael ei nodi.	2	0.4%
8.	Enw'r Ysgol Newydd Nododd ymatebwyr fod angen cynnwys a dathlu'r ddwy ysgol a'u cymunedau yn enw'r ysgol newydd.	Er bod yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r syniad bod enw'r ysgol newydd yn adleisio'r ddwy ysgol/cymuned, nid oes ganddo'r pŵer i orfodi hyn. Penderfyniad i Gorff Llywodraethu'r ysgol fydd enw'r ysgol newydd.	1	0.2%
9.	Addysg Disgyblion yn y Dyfodol Roedd ymatebwyr yn cydnabod byddai'r cynnig yn cefnogi datblygiad model addysg oedd yn addas ar gyfer y dyfodol. Roedd ymatebwyr yn cydnabod byddai buddsoddi'n gwella	Os derbynir y cynnig, bydd ei weithredu'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith ysgolion sy'n effeithiol yn addysgol, yn effeithlon o ran adnoddau ac yn gynaliadwy yn y tymor hir. Yn bwysicaf oll, bydd yn sicrhau model cynaliadwy o ddarpariaeth ddysgu sy'n diwallu anghenion a dyheadau pob plentyn yn awr ac yn y dyfodol.	1	0.2%

	cyfleusterau addysg i ddisgyblion.			
10.	Cyfleusterau Cymunedol Nododd ymatebwyr fod angen sicrhau bod yr ysgol newydd yn cynnwys cyfleusterau y gellid eu rhannu â'r gymuned.	Bydd yr ysgol newydd yn cael ei chynllunio mewn modd sy'n hwyluso defnydd cymunedol. Byddai'r buddsoddiad arfaethedig o fudd i'r ddwy gymuned drwy alluogi rhannu defnydd o'r cyfleusterau y tu allan i oriau ysgol.	1	0.2%
11.	Y sefyllfa bresennol Nododd ymatebwyr, er eu bod yn llwyr gefnogi'r cynnig i fuddsoddi mewn ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gwenllian, nad oeddent yn cefnogi cau Ysgol Mynyddgarreg.	Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisiau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig hwn yn gwreddu'r uchelgais hwn ac yn darparu darpariaeth addysgu a dysgu ar gyfer yr 21ain Ganrif i gymunedau Mynyddgarreg a Gwenllian.	1	0.2%
12.	Cyflwr ac Addasrwydd Adeilad Presennol yr Ysgol Roedd ymatebwyr yn cydnabod cyfyngiadau ymestyn neu addasu adeilad ysgol presennol Ysgol Mynyddgarreg oherwydd oedran a lleoliad yr adeilad.	Mae'r gefnogaeth yn cael ei nodi.	1	0.2%

--	--

Pryderon a Godwyd				
1.	<p>Effaith ar y Gymuned</p> <p>Mynegodd ymatebwyr bryder am effaith cau'r ysgol ar y gymuned. Nododd ymatebwyr fod gan yr ysgol hanes cyfoethog a'i bod yn cael ei gwerthfawrogi gan y gymuned a'r teuluoedd. Disgwylir hefyd i nifer fawr o dai newydd gael eu hadeiladu yn ystod y blynnyddoedd nesaf a fyddai'n rhoi disgyblion ychwanegol i'r ysgol.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod mai un o brif anfanteision derbyn y cynnig yw colli presenoldeb ysgol yng nghymuned Mynyddgarreg. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bydd y cynnig yn gwella mynediad cymuned Mynyddgarreg i gyfleusterau cymunedol, addysgu, a dysgu sy'n perthyn i'r 21ain ganrif drwy rannu defnydd.</p> <p>Prif ddiben ysgol yw addysgu'r disgyblion hyd at y safonau gorau posibl, ac nid yw'n rhesymol disgwyl i ysgolion ysgwyddo'r baich ehangach o'r effaith ar y gymuned. Yn y pen draw, nid yw ffactorau economaidd a chymdeithasol yn faterion addysgol, ac ni ellir caniatáu iddynt beryglu addysg plant.</p> <p>Er bod y rhan fwyaf o rieni yn anfon eu plentyn i'w hysgol dalgylch leol, mae hawl gan rieni i ddatgan eu bod yn ffafrio ysgolion eraill. O ganlyniad, nid yw nifer fawr o dai newydd o reidrwydd yn denu nifer fawr o ddisgyblion newydd i ysgol y dalgylch.</p>	165	35%
2.	<p>Y sefyllfa bresennol</p> <p>Nododd ymatebwyr y dylai'r ddwy ysgol aros ar agor a dylid ffurfioli'r ffederasiwn anffurfiol presennol.</p>	<p>Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i</p>	149	31%

	Canmolodd ymatebwyr yr ysgol a'r ddarpariaeth addysg ragorol yn Ysgol Mynyddgarreg ac ailadrodd na ddylai gau.	hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisiau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig hwn yn gwreddu'r uchelgais hwn ac yn darparu darpariaeth addysgu a dysgu ar gyfer yr 21ain Ganrif i gymunedau Mynyddgarreg a Chydweli.		
3.	<p>Effaith ar Amserau a Phellter Teithio Disgyblion</p> <p>Nododd ymatebwyr y byddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar allu disgyblion i gerdded i'r ysgol a'r trefniadau cludiant teuluol presennol.</p> <p>Mynegwyd pryderon am ddiogelwch disgyblion wrth gerdded o ddalgylch presennol Ysgol Mynyddgarreg i safle arfaethedig yr ysgol newydd (sy'n golygu croesi ffordd osgoi brysur) a goblygiadau teithio cynyddol ar yr Ôl Troed Carbon.</p> <p>Nododd ymatebwyr fod hyn yn mynd yn groes i Bolisi CSC.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai gweithredu'r cynnig effeithio ar drefniadau trafnidiaeth a theithio presennol disgyblion a theuluoedd. Os caiff y cynnig ei weithredu, mae tua 2.4 milltir rhwng Ysgol Mynyddgarreg a'r safle arfaethedig a ffefrir ar gyfer yr ysgol newydd.</p> <p>Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Cyngor.</p>	121	25%

4.	<p>Ffafrio ysgol fach Nododd ymatebwyr eu bod yn ffafrio ysgolion bach a manteision y math hwn o ddarpariaeth e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dosbarthiadau oedran cymysg • Dosbarthiadau bach • Cymhareb Athro-Disgybl • Staff a disgyblion yn gyfarwydd â'i gilydd 	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai rhieni fod yn ffafrio'r math o addysg y maent yn dymuno i'w plentyn ei derbyn.</p> <p>'Gall rhieni fynegi eu bod yn dewis ysgol nad yw'n ysgol ddynodedig y dalgylch. Os dilynir y gweithdrefnau cywir ac os nad yw nifer y disgyblion yn fwy na'r nifer y caniateir i'r ysgol ei derbyn, bydd lle yn cael ei roi.' <u>Derbyn i Ysgolion: Llyfryn Gwybodaeth i Rieni 2021 - 2022</u></p> <p>Rhaid rhoi sylw dyledus i'r manteision cymdeithasol ac addysgol posibl sydd ar gael i blant drwy ddysgu a gweithio mewn partneriaeth ag ystod ehangach o gyfoedion a staff.</p> <p>Gall disgyblion ddysgu gan gyfleoedd i gydweithio ac adeiladu perthnasoedd mewn pob math o ddosbarthiadau, boed yn grwpiau cymysg neu o'r un oedran.</p> <p>Gwnaed llawer o ymchwil i effaith maint dosbarthiadau, ond mae llawer o'r ymchwil yn anghyson. Meddai Andreas Schleicher, Cyfarwyddwr Addysg a Sgiliau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD): "Ym mhob man, mae athrawon, rhieni a llunwyr polisi yn ffafrio dosbarthiadau bach gan ddweud eu bod yn allweddol i addysg well a mwy personol ac</p>	96	20%

		eto, nid yw canlyniadau Pisa yn dangos unrhyw berthynas rhwng maint dosbarthiadau a deilliannau dysgu, dim o fewn gwledydd nac ar draws gwledydd.”		
5.	Dim rheswm Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu pryderon.		53	11%
6.	Effaith ar y Gymraeg Myneodd ymatebwyr bryder byddai cymuned Mynyddgarreg yn colli ei threftadaeth Gymraeg mewn cyfnod pan oedd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r iaith i annog mwy o siaradwyr Cymraeg. Ysgol Mynyddgarreg yw'r unig ysgol cyfrwng Cymraeg fach yn yr ardal a gallai ei chau arwain at ddisgyblion yn dewis ysgol cyfrwng Saesneg arall.	<p>Fel rhan o'r cynnig, bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith cyfrwng Cymraeg presennol.</p> <p>Os gweithredir y cynnig, bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod disgyblion Ysgol Mynyddgarreg yn symud i'r datblygiad ysgol newydd, lle byddai disgyblion yn gallu parhau â'u taith addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Caiff statws iaith pob ysgol ei adolygu fel rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg – ac wrth i fwy o ysgolion deithio ar hyd y continwwm iaith. Bydd yr adolygiad hwn yn berthnasol i ysgolion cyfrwng Saesneg bach yn ogystal â phob ysgol arall.</p>	50	10%
7.	Pryderon ynghylch ysgolion/dosbarthiadau mawr Nododd ymatebwyr bryderon na fyddai disgyblion yn ymdopi/ffynnu mewn ysgol	Gall disgyblion ddatblygu a ffynnu ym mhob math o ddosbarth. Mae addysg o safon uchel yn cael ei darparu ar hyn o bryd mewn ysgolion mawr iawn.	39	8%

	<p>fawr ac roeddent o'r farn nad oedd dosbarthiadau mawr yn dda ar gyfer addysg disgylion.</p> <p>Mae arolygiad Estyn ar gyfer adeilad ysgol newydd â 315 lle a 45 lle meithrin yn Sir Gaerfyrddin yn nodi bod yr ysgol yn darparu 'amgylchedd cartrefol a chynhwysol' sy'n 'cyfrannu at ymdeimlad disgylion o falchder yn eu gwaith ac o berthyn i'w hysgol.' Maent yn hapus i fynychu'r ysgol, yn ymddwyn yn dda iawn, ac yn datblygu agweddu cadarnhaol at ddysgu.'</p> <p>Mae Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013 yn gosod terfyn ar faint dosbarthiadau babanod h.y. blynnyddoedd Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.</p> <p>Y terfyn a osodir yw'r uchafswm o 30 o ddisgyblion mewn dosbarth babanod ar unrhyw adeg pan gaiff sesiwn ddysgu arferol ei chynnal gan un athro (neu, os cynhelir y sesiwn gan fwy nag un athro, uchafswm o 30 disgybl i bob athro).</p> <p>Felly, mae holl Ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'u rhwymo'n gyfreithiol i gadw maint dosbarthiadau Babanod i derfyn o 30 o ddisgyblion.</p> <p>Er nad oes deddfwriaeth sy'n cyfyngu dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 i 30 neu lai, mae gan Lywodraeth Cymru darged o sicrhau bod plant 7 i 11 oed yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o 30 o blant ar y mwyaf fesul athro ysgol.</p> <p>Penderfynir ar gapasiti ysgolion drwy ddefnyddio dull Llywodraeth Cymru ar gyfer Mesur Capasiti</p>		
--	--	--	--

		<p>Ysgolion yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn darparu dull cadarn a chyson o asesu capaciti ysgolion, ac, yn dilyn hynny, capaciti maint dosbarthiadau. Mae'r fethodoleg hon yn defnyddio fformiwlau i ddarparu asesiad realistig a chyson o gapasiti'r holl ysgolion cynradd.</p> <p>Nod yr Awdurdod Lleol yw cael dosbarthiadau o faint addas sydd heb fwy na dau o grwpiau blwyddyn fesul dosbarth ac nad ydynt yn rhychwantu cyfnodau allweddol y cwricwlwm.</p> <p>Mae llawer o fanteision hefyd i ysgolion sydd â mwy o ddisgyblion gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arbedion maint – e.e. defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol • Mwy o gyfle i gymdeithasu ag ystod ehangach o ddisgyblion a gwell cyfle i allu dewis eu ffrindiau a/neu gael cylch ehangach o ffrindiau • Gwell cyfle i allu cymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o dimau chwaraeon a diwylliannol, gyda'r cymhelliant ychwanegol o gystadleuaeth 'gyfeillgar' • Mwy o gyfle i allu gweithio gyda disgyblion o allu tebyg 		
8.	Safonau Addysg Cwestiynodd ymatebwyr y gwahaniaeth yn safonau addysg y ddwy ysgol a thynnu sylw at y ffaith bod	Mae'r broses categoriiddio ysgolion genedlaethol wedi'i hatal ers 2020 ac felly nid yw'n briodol gwneud sylwadau ar hen ddata.	38	8%

	Mynyddgarreg yn ysgol â sgôr werdd.			
9.	<p>Llwyddiant Cylch Meithrin Mynyddgarreg</p> <p>Nododd ymatebwyr fod y Cylch Meithrin yn llwyddiannus iawn ac y gallai gefnogi'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ysgol.</p> <p>Roedd ymatebwyr yn pryderu hefyd byddai'r Cylch Meithrin yn colli ei gartref a byddai'r gymuned yn colli gwasanaeth gwerthfawr pe bai'r cynnig i gau Ysgol Mynyddgarreg yn cael ei weithredu.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd y Cylch Meithrin ar gyfer addysg a datblygiad plant.</p> <p>Er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai'r Cylch Meithrin gefnogi nifer y disgyblion, mae cynaliadwyedd Ysgol Mynyddgarreg yn y dyfodol wedi cael ei ystyried am sawl rheswm gan gynnwys cyllideb yr ysgol, cyflwr ac addasrwydd yr adeilad/adnoddau, a'r cynnig i ddarparu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gwenllian sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion Mynyddgarreg elwa ar hynny. Felly, nid yw peidio â chynnal Ysgol Mynyddgarreg yn dibynnu ar nifer y disgyblion yn unig.</p> <p>Nid yw datblygiad yr ysgol newydd arfaethedig yn cynnwys lle i'r Cylch Meithrin na darpariaeth gofal plant.</p> <p>Os gweithredir y cynnig, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Cylch Meithrin i edrych ar y gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt.</p>	35	7%
10.	<p>Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Presennol yr Ysgol</p> <p>Soniodd ymatebwyr sut oedd diffyg buddsoddiad gan yr</p>	<p>Mae cyfrifoldeb ar Gyrff Llywodraethu Ysgolion i gynnal a chadw ysgolion, yn ogystal â'r Awdurdod Lleol.</p>	30	6%

	Awdurdod Lleol wedi caniatáu i gyflwr ac addasrwydd adeilad Ysgol Mynyddgarreg ddirywio i sefyllfa lle ystyrid mai cau oedd yr opsiwn a ffefrir.	<p>Cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol yw gwaith CYFALAF ei natur a byddai unrhyw waith gofynnol arall yn REFENIW ei natur ac felly cyfrifoldeb yr ysgol fyddai.</p> <p>Mae'r gyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw CYFALAF mawr mewn ysgolion dan bwysau difrifol ac mae gwaith brys yn cael ei flaenoriaethu'n flynyddol ar draws yr ystâd ysgolion.</p> <p>Cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol Raglen Moderneiddio Addysg ddiwygiedig a Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif ar 18 Rhagfyr 2017, lle cymeradwywyd mynd ar drywydd cyllid grant (gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer cyfanswm o 19 o brosiectau unigol am gyfanswm o £129.5m a oedd yn cynnwys cynllun ar gyfer Ysgol Gwenllian. Oherwydd yr heriau a wynebir yn Ysgol Mynyddgarreg, byddai'n annhebygol o ddenu cyllid Llywodraeth Cymru gan na fyddai'n cael ei hystyried yn ddigon strategol, o gofio bod ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gwenllian yn cael ei chynnig ar gyfer yr ardal.</p>		
11.	Ymgynghori yn ystod pandemig Nid oedd ymatebwyr yn credu bod ymgynghori yn ystod pandemig yn briodol. Nid oeddent yn teimlo bod y gofynion oedd ynghlwm wrth	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn sylweddoli bod y 21 mis diwethaf wedi bod yn hynod anodd i deuluoedd.</p> <p>Hoffai'r Awdurdod Lleol sicrhau rhanddeiliaid bod yr ymgynghoriad wedi'i baratoi a'i gynnal yn unol â</p>	25	5%

	<p>gadw pellter cymdeithasol yn caniatáu ymgynghoriad llawn a thryloyw. Soniodd rhai ymatebwyr am yr anhawster roeddent wedi'i gael i ymuno â'r cyfarfodydd rhithwir. Nododd ymatebwyr effaith niweidiol ymgynghori yn ystod pandemig ar iechyd meddwl a llesiant rhanddeiliaid.</p>	<p>gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018) a'r canllawiau ar 'Newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mewn ymateb i'r argyfwng coronafeirws' a gyhoeddwyd ar 8 Ionawr 2021, a oedd yn caniatáu i ymgynghoriadau ag ysgolion barhau yn ystod y cyfnod hwn. Roedd y canllawiau hyn yn cynnwys newidiadau dros dro i rai o ofynion y Cód Trefniadaeth Ysgolion ac yn rhoi cyngor i Awdurdodau Lleol am ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion yn ystod yr argyfwng coronafeirws (COVID-19).</p> <p>Yn dilyn hynny, ar 16 Chwefror 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau pellach ar ymgynghori ynghylch cynigion trefniadaeth ysgolion yn ystod pandemig y Coronafeirws. Mewn ymateb i'r canllawiau hyn, yn dilyn cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol ar 22 Chwefror 2021, penderfynwyd ymestyn y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig tan 1 Mawrth 2021.</p> <p>Cafodd y cyfnod ymgynghori ei ymestyn ymhellach ar 1 Mawrth i 16 Gorffennaf 2021, wedi i'r Bwrdd Gweithredol ystyried rhybudd o gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor Sir ar 10 Chwefror 2021.</p> <p>Oherwydd goblygiadau parhaus pandemig y coronafeirws yn ystod y cyfnod ymgynghori, rhoddodd yr Awdurdod Lleol gyfle i ymgynghoreion fynychu sesiynau galw heibio rhithwir yn lle cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd hwn yn gyfle i ymgynghoreion ofyn cwestiynau, mynegi eu barn a</p>		
--	--	---	--	--

		<p>thraffod y cynnig gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol. Er derbyn na fyddai pob rhanddeiliad yn gallu cael mynediad i sesiwn galw heibio rithwir, rhoddyd cyfle i bob ymgynghorai gyflwyno ei farn neu ofyn cwestiynau drwy lythyr, ffôn neu e-bost.</p> <p>Er bod manteision cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cydnabod, mewn ymateb i'r pandemig, addasodd yr awdurdod lleol ei ddulliau ymgysylltu er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad mor hygrych â phosibl i bawb. Mae llawer o'r dulliau hyn wedi bod hyd yn oed yn fwy llwyddiannus na chyfarfodydd traddodiadol wyneb yn wyneb a dulliau blaenorol a ddefnyddiwyd mewn ymgynghoriadau hanesyddol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i addasu ei ddulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid.</p>		
12.	<p>Safon y Ddogfen Ymgynghori a gwybodaeth anghywir</p> <p>Teimlai'r ymatebwyr fod y Ddogfen Ymgynghori yn rhagfarnllyd ac yn cynnwys gwybodaeth ffug/camarweiniol.</p> <p>Nid oedd ymatebwyr yn credu bod y ddogfen Ymgynghori wedi ystyried egwyddorion polisi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p>	<p>Mae'r ddogfen ymgynghori a luniwyd yn cydymffurfio â'r canllawiau fel y'u nodir yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018)</p> <p>Mae'r holl ddata a gwybodaeth yn y Ddogfen Ymgynghorol yn gywir ac wedi'i seilio ar Ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae'r holl ddata a gynhwysir yn y Ddogfen Ymgynghorol wedi ei nodi fel gofyniad yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).</p>	20	4%

	<p>Roedd ymatebwyr yn beirniadu ansawdd a dyfnder y wybodaeth a gafwyd gan swyddogion mewn ymateb i ymholiadau a godwyd.</p>	<p>Er bod yr awdurdod lleol yn nodi'r sylwadau a wnaed, rhaid ailadrodd bod yr holl atebion a roddwyd mewn ymateb i ymholiadau a godwyd drwy sesiynau galw heibio neu ddulliau eraill yn seiliedig ar wybodaeth ffeithiol a chywir.</p>		
13.	<p>Pwysau Ariannol Roedd ymatebwyr yn credu bod y cynnig yn cael ei weithredu am resymau ariannol ac er mwyn osgoi buddsoddi yn Ysgol Mynyddgarreg. Mynegwyd pryder hefyd fod y diffyg yng nghyllideb yr ysgol yn cael ei ddefnyddio fel rheswm dros gau, pan oedd gyda chi ysgolion yn y Sir oedd mewn diffyg llawer mwy.</p>	<p>Gwnaed y penderfyniad i beidio â chynnal Ysgol Mynyddgarreg yn seiliedig ar nifer o ffactorau unigol gan gynnwys niferoedd ac amcanestyniadau disgyblion, cyllideb yr ysgol, cyflwr ac addasrwydd adeiladau/adnoddau, a'r cynnig i ddarparu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gwenllian sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion Mynyddgarreg elwa ar hynny.</p> <p>At hynny, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol Raglen Moderneiddio Addysg ddiwygiedig a Raglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif (Band A) ar 18 Rhagfyr 2017, pryd cymeradwywyd mynd ar drywydd cyllid grant (gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer cyfanswm o 19 o brosiectau unigol am gyfanswm gwerth o £129.5m a oedd yn cynnwys dau gynllun ar wahân ar gyfer Cydweli. Oherwydd nifer isel y disgyblion yn Ysgol Mynyddgarreg, mae'n annhebygol y byddai cais am gyllid i adnewyddu'r ysgol yn llwyddiannus gan na fyddai hyn yn cael ei ystyried yn ddigon strategol, o gofio bod dau brosiect buddsoddi arall ar waith yn yr ardal.</p>	20	4%

14.	<p>Dewis Ysgol Fach yn y Dyfodol</p> <p>Roedd ymatebwyr yn credu bod cau'r ysgol yn cyfyngu ar hawliau dynol rhieni a disgylion i ddewis y ddarpariaeth addysg gynradd oedd orau ganddynt. Roedd llawer yn credu, drwy gau Ysgol Mynyddgarreg, na fyddai rhieni'n gallu dewis ysgol fach mwyach.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gallai rhieni fod yn ffafrio'r math o addysg y maent yn dymuno i'w plentyn ei derbyn.</p> <p>'Gall rhieni fynegi eu bod yn dewis ysgol nad yw'n ysgol ddynodedig y dalgylch. Os dilynnir y gweithdrefnau cywir ac os nad yw nifer y disgylion yn fwy na'r nifer y caniateir i'r ysgol ei derbyn, bydd lle yn cael ei roi.' <u>Derbyn i Ysgolion: Llyfrym Gwybodaeth i Rieni 2021 - 2022</u>.</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth am bolisi derbyniadau yr Awdurdod Lleol ar gael yn llyfrym Cyngor Sir Caerfyrddin <u>Derbyn i Ysgolion: Gwybodaeth i Rieni 2021-2022</u>.</p>	17	3%
15.	<p>Newid yn yr Ystod Oedran</p> <p>Teimlai'r ymatebwyr y dylid newid ystod oedran Ysgol Mynyddgarreg o 4-11 i 3-11 gan eu galluogi i gynnig darpariaeth Feithrin ran-amser a chynyddu nifer y disgylion yn yr ysgol. Byddai hyn hefyd yn alinio'r ddarpariaeth ag un Ysgol Gwenllian.</p>	<p>Mae cyfuniad o ysgolion cynradd 3-11 a 4-11 yn yr awdurdod ac mae adolygiad yn cael ei gynnal ar ddarpariaeth feithrin ar hyn o bryd, a disgwyli'r adroddiad gael ei gyflwyno i aelodau etholedig yn y 6 mis nesaf i'w ystyried.</p> <p>Pe bai pob ysgol yn yr awdurdod yn 3-11 yna byddai perygl bod darparwyr nas cynhelir yn mynd yn anghynaliadwy. Mae'n bwysig bod yr awdurdod yn ystyried sut y byddai ei bolisiau'n effeithio ar ddarparwyr preifat.</p>	16	3%

16.	Effaith y Cynnig ar y Dref a Thrigolion Cydweli Nododd ymatebwyr bryderon ynghylch y traffig cynyddol yng Nghydweli yn ystod amseroedd gollwng a chasglu, mewn tref lle mae'r traffig yn drwm eisoes.	Fel rhan o'r broses gynllunio, cynhelir Asesiad Effaith Traffig i ganfod effaith datblygiad newydd yr ysgol ar y seilwaith cyfagos. Dadansoddiad technegol o'r problemau traffig a'r materion diogelwch sy'n ymwneud â datblygiad newydd yw Asesiad Effaith Traffig. Bydd canlyniad yr asesiad yn pennu pa fesurau a roddir ar waith i sicrhau bod gwelliannau i'r briffordd yn cael eu gwneud os oes angen.	16	3%
17.	Symud i Ysgolion Eraill Mynegodd ymatebwyr bryder, gan na fyddai safle arfaethedig yr ysgol newydd o fewn pellter cerdded i drigolion Mynyddgarreg, y gallai rhieni ddewis anfon eu plant i ysgol arall yn hytrach nag i Ysgol Gwenllian. Soniodd rhai ymatebwyr y byddent yn ystyried addysgu eu plant yn y cartref.	Os gweithredir y cynnig, bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn symud i'r ysgol newydd pan fydd wedi'i chwblhau. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod bod gan rieni hawl i ddatgan pa ysgol maent yn ei ffafrio wrth ddewis ysgol ar gyfer eu plentyn. Os bydd rhieni'n dymuno dewis ysgol arall ar gyfer eu plant, gallant wneud hynny yn unol â <u>Pholisi Derbyn i Ysgolion 2022-2023</u> .	13	3%
18.	Dyluniad yr ysgol newydd Roedd ymatebwyr yn cwestiynu dyluniad yr ysgol newydd, a'r cyfleusterau yn benodol - pam nad oedd lle wedi'i neilltuo i'r Cylch	Os gweithredir y cynnig, byddai mwy o fanylion am ddyluniad a chyfleusterau'r datblygiad ysgol newydd ar gael i randdeiliaid wrth i'r cynllun fynd drwy ei gamau datblygu.	10	2%

	<p>Meithrin. Mynegwyd pryder hefyd fod y cynlluniau wedi'u diwygio a bod y cynlluniau gwreiddiol yn darparu lle i'r Cylch Meithrin.</p>	<p>Bydd yr ysgol newydd yn cael ei chynllunio i ddarparu ar gyfer y nifer gofynnol o ddisgyblion ac yn cael y cyllid, yr adnoddau a'r staff priodol. Ers cyflwyno dyluniadau gwreiddiol yr ysgol rai blynnyddoedd yn ôl, mae nifer y lleoedd yn yr ysgol wedi'i adolygu a'i ddiweddu.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod pwysigrwydd y Cylch Meithrin ar gyfer addysg a datblygiad plant. Os gweithredir y cynnig, byddai'r Awdurdod Lleol yn trafod y posibiliadau oedd ar gael i'r Cylch Meithrin o ran lleoliad yn y dyfodol gyda'r cynrychiolydd priodol.</p>		
19.	<p>Enw'r Ysgol Newydd Nododd ymatebwyr bwysigrwydd sicrhau bod gan yr ysgol newydd enw newydd a fyddai'n cynnwys Ysgol Mynyddgarreg.</p>	<p>Er bod yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r syniad bod enw'r ysgol newydd yn adleisio'r ddwy ysgol/cymuned, nid oes ganddo'r pŵer i orfodi hyn. Penderfyniad i Gorff Llywodraethu'r ysgol fydd enw'r ysgol newydd.</p>	10	2%
20.	<p>Effaith y Cynnig/Sïon Mynegodd ymatebwyr bryder bod Ysgol Mynyddgarreg wedi bod yn gweithredu dan y bygythiad o gau ers blynnyddoedd lawer a bod y bygythiad/sïon hyn wedi effeithio ar allu'r ysgol i ddenu disgylion newydd.</p>	<p>Er bod yr Awdurdod Lleol yn cydnabod effaith niweidiol sïon o'r fath - mae bod yn agored ac yn dryloyw yn allweddol i ymgynghori effeithiol, er mwyn i rieni ystyried beth sydd orau i'w plentyn yn y tymor hir.</p>	4	0.8%

21.	Amseru'r Ymgynghoriad Gofynnodd ymatebwyr pam roedd y cynnig i gau Ysgol Mynyddgarreg wedi ei gynnwys mor hwyr yn y broses, pan allai'r cynnig am adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gwenllian fod wedi cael ei ddatblygu heb y cau hwn.	Mae amseriad gweithredu'r cynnig wedi'i gynllunio i sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl a bod disgyblion Ysgol Mynyddgarreg ac Ysgol Gwenllian yn symud yn hwylus. Os gweithredir y cynnig, pan peidir â chynnal Ysgol Mynyddgarreg, caiff yr holl ddisgyblion eu cofrestru yn Ysgol Gwenllian a fydd yn gweithredu ar y ddau safle. Bydd hyn yn caniatáu i staff a disgyblion ar y ddau safle addasu i ffyrdd newydd o weithio cyn symud i'r adeilad ysgol newydd.	4	0.8%
22.	Gwrth-ddweud Polisi Nododd ymatebwyr fod y cynnig yn gwrth-ddweud polisi Llywodraeth Cymru ar y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig.	Mae ail rifyn Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn nodi trefniadau arbennig ar gyfer ysgolion gwledig (a ddiffinnir yn y Côd), o ran sefydlu rhagdybiaeth drefniadol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigwyr ddilyn set fanylach o weithdrefnau a gofynion wrth lunio cynnig i gau ysgol wledig ac wrth ymgynghori ynghylch a phenderfynu a ddylid gweithredu cynnig i gau ysgol wledig. Mae rhestr o ysgolion gwledig Sir Gaerfyrddin fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru i'w gweld ar dudalen 78 o'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) Nid yw Ysgol Mynyddgarreg yn cael ei diffinio fel ysgol wledig yn ôl y cod.	3	0.6%

23.	Safleoedd ysgol diangen Gofynnodd ymatebwyr beth fyddai'n digwydd i'r hen safleoedd ysgol.	<p>Os mabwysiedir y cynnig, trosglwyddir unrhyw eiddo afraid i'r Is-adran Adfywio er mwyn gweithredu'r gweithdrefnau a amlinellwyd yn y polisi yngylch Defnyddio yn y Dyfodol/Gwaredu Tir ac Adeiladau Afraid o ganlyniad i'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Datblygwyd y polisi hwn er mwyn gallu cynnig yr ased i'r gymuned yn gyntaf oll cyn gosod y safle ar y farchnad agored.</p> <p>Byddai unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir o ganlyniad i'r cynnig yn cael eu hailfuddsoddi yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg.</p>	3	0.6%
24.	Disgyblion ADY Roedd ymatebwyr yn credu byddai disgyblion ag ADY yn cael trafferth gyda'r newid, ac wedi holi sut byddai disgyblion yn cael eu cefnogi. Credir bod ysgolion bach yn well ar gyfer disgyblion sydd angen addysgu un i un.	Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. Ni ddylai maint yr ysgol a'r ystafell ddosbarth fod yn ffactor pan fydd ysgolion yn darparu dull dysgu sy'n canolbwytio ar unigolion a gefnogir gan becynnau dysgu personol gydag ymyriadau, strategaethau a chyfleoedd wedi'u targedu'n unigol a'r cymorth angenrheidiol i'w darparu.	2	0.4%

Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig

Ymateb Estyn i'r cynnig i adolygu darpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Mynyddgarreg a Gwenllian

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Crynodeb/ Casgliad

Mae'r cynnig hwn gan Gyngor Sir Gâr, sef adolygu darpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Mynyddgarreg a Gwenllian. Yn fwy penodol, nod y cynnig yw:

- Cau Ysgol Gynradd Mynyddgarreg o 31 Awst, 2021.
- 1 Medi, 2021, bydd yr holl ddisgyblion yn cael eu cofrestru yn Ysgol Gymraeg Gwenllian sy'n gweithredu ar ddau safle (Ysgol Gymraeg Gwenllian a hen Ysgol Gynradd Mynyddgarreg).
- Ailddynodi dalgylch Ysgol Gymraeg Gwenllian i gynnwys dalgylch blaenorol Ysgol Gynradd Mynyddgarreg o 1 Medi, 2021.
- Adleoli Ysgol Gymraeg Gwenllian i safle newydd a chynyddu ei chapasiti i 210, a 30 o leoedd meithrin o fis Medi 2023, pan gynigir mediannu'r ysgol newydd.

Mae Estyn o'r farn fod y cynnig hwn yn annhebygol o gael effaith niweidiol gyffredinol ar safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae'r darparwr wedi rhoi rhesymeg ymddangosiadol glir ar gyfer y cynnig, sef lleihau nifer y lleoedd dros ben a gwella cyflwr yr adeiladau yn Ysgol Gynradd Mynyddgarreg ac Ysgol Gymraeg Gwenllian, trwy gyfuno'r ddwy ysgol a'u hadleoli i ysgol newydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol ar safle gwahanol. Hefyd, bwriedir y bydd y cynnig yn mynd i'r afael â phroblemau cylidebol.

Mae'r Cyngor wedi amlinellu manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig. Mae'r manteision yn canolbwytio'n bennaf ar fanteision ysgol wedi'i hadeiladu o'r newydd, gan sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ddigonol i fodloni'r galw a lleihau lleoedd dros ben. Mae'r anfanteision yn cynnwys sicrhau cyllid ac amser teithio cynyddol i rai disgylion.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod 3 risg mewn perthynas â'r cynnig ac wedi nodi gwrth-fesurau sy'n ymddangos yn addas i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos ei fod wedi mynd i'r afael â risg cael niferoedd sylweddol parhaus o leoedd dros ben yn yr ysgol. Capasiti'r adeilad newydd ar y safle newydd yn 2023 fydd 240 o ddisgyblion, yn cynnwys oedran meithrin. Yr amcanestyniadau disgylion ar gyfer y ddwy ysgol gyda'i gilydd, yn cynnwys oedran meithrin, ar gyfer mis Ionawr 2023, yw 171 o ddisgyblion. Bydd hyn yn golygu 69 o leoedd dros ben ar gyfer disgylion neu 29%. Nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r risg hon.

Mae'r Cyngor yn haeru bod 91 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Mynyddgarreg yn mynychu ysgolion eraill, a bod 192 o ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Gwenllian yn mynychu ysgolion eraill.

Mae'r Cyngor wedi rhestru nifer o ysgolion eraill sydd wedi eu heffeithio gan y cynnig hwn, ac wedi darparu data ar gyfer yr ysgolion hyn, gan gynnwys niferoedd presennol, niferoedd, capasiti a chyllideb arfaethedig. Nid yw unrhyw un o'r ysgolion hyn wedi cyrraedd eu capasiti, ac ni ddisgwylir iddynt fod felly dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Nid yw'r Cyngor wedi darparu unrhyw sylwadau ynghylch effaith y cynnig ar yr ysgolion hyn, fodd bynnag, mae'n ymddangos na fydd yn cael rhyw lawer o effaith ar fynd i'r afael â phroblem lleoedd dros ben ar draws yr awdurdod lleol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried 4 opsiwn amgen ac wedi rhestru manteision ac anfanteision pob opsiwn. Mae wedi rhestru manteision ac anfanteision yr opsiwn ffafriedig hefyd. Mae'n ymddangos bod y rhain yn rhesymol a dilys.

Mae'r Cyngor wedi datgan y bydd trafnidiaeth yn cael ei darparu yn unol â gofynion statudol Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008. Mae dros filltir rhwng Ysgol Gynradd Mynyddgarreg a safle newydd arfaethedig Ysgol Gymraeg Gwenllian. Bydd adeilad ysgol newydd Ysgol Gymraeg Gwenllian wedi'i ddylunio i ymgorffori ardaloedd diogel ar gyfer gollwng a chasglu disgylion. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, edrychir ar Iwybrau diogel i'r ysgol fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Drafnidiaeth ar gyfer adeilad yr ysgol newydd. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

Mae'r Cyngor wedi cynnwys asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gyfer y ddwy ysgol, ac wedi nodi rhai meysydd y mae angen mynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r effaith ar y ddwy gymuned, er enghraift mae wedi nodi bod Mudiad Meithrin yn defnyddio'r neuadd yn Ysgol Gynradd Mynyddgarreg ar hyn o bryd, ond ni chynigiwyd unrhyw gyfleoesterau amgen yn yr ardal leol.

Mae'r Cyngor wedi darparu asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, ac yn cyfeirio at ei Gynllun Cymraeg mewn Addysg. Bwriedir y bydd y cynnig yn caniatáu mwy o gyfleoedd i elwa ar addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Cydweli a Mynyddgarreg, a bydd yn sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd, fel bod pob disgyl yn dod yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel ei gilydd. Mae'n ymddangos bod hyn yn berthnasol ac yn addas.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r Cyngor wedi ystyried gwerthusiad o'r trefniadau ffedereiddio anffurfiol presennol, ac wedi cynnwys detholiadau perthnasol o adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn ar gyfer y ddwy ysgol. Mae wedi gorffen â sylwadau ar effaith y cynnig ar y ddwy ysgol. Mae hyn yn cynnwys effaith gadarnhaol ar addysgu a lles staff, ac mae hyn yn ymddangos yn rhesymol a diliys.

Mae'r Cyngor wedi darparu asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd, sy'n ymddangos yn addas, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r asesiad hwn yn cyfeirio at y term hen ffasiwn, "yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd" ("DDA compliant"). Yn ychwanegol, mae'n ymddangos mai ychydig iawn o gyfeiriad sydd yn y ddogfen at sut bydd y cynnig yn effeithio ar ddisgyblion ag AAA.

Mae'n ymddangos bod y Cyngor wedi ystyried sut bydd y tarfu ar ddysgwyr yn cael ei leihau i'r eithaf. Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, bydd disgyblion yn aros ar safleoedd eu hysgolion presennol o dan reolaeth Ysgol Gymraeg Gwenllian, nes bydd yr adeilad newydd yn barod i dderbyn pob un o'r disgyblion o Ysgol Gynradd Mynyddgarreg ac Ysgol Gymraeg Gwenllian.

Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn

Dengys sylwadau Estyn ei fod o'r farn fod y cynnig yn annhebygol o gael effaith niweidiol gyffredinol ar safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal. Mae ei sylwadau'n cynnwys datganiadau cefnogi fel y nodir isod.

Datganiadau o gefnogaeth ar gyfer y cynnig hwn gan Estyn

Mae'r darparwr wedi rhoi rhesymeg ymddangosiadol glir ar gyfer y cynnig.

Mae'r Cyngor wedi cydnabod tair risg mewn perthynas â'r cynnig ac wedi nodi gwrt-fesurau sy'n ymddangos yn addas i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.

Mae'r Cyngor wedi ystyried pedwar opsiwn amgen ac wedi rhestru manteision ac anfanteision pob opsiwn. Mae wedi rhestru manteision ac anfanteision yr opsiwn ffafriedig hefyd. Mae'n ymddangos bod y rhain yn rhesymol a diliys.

Materion a godwyd gan Estyn ac ymatebion yr ALI

1. *Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos ei fod wedi mynd i'r afael â risg cael niferoedd sylweddol parhaus o leoedd dros ben yn yr ysgol. Capasiti'r adeilad newydd ar y safle newydd yn 2023 fydd 240, yn cynnwys oedran meithrin. Yr amcanestyniadau disgyblion ar gyfer y ddwy ysgol gyda'i gilydd, yn cynnwys oedran meithrin, ar gyfer mis Ionawr 2023, yw 171 o ddisgyblion. Bydd hyn yn golygu 69 o leoedd dros ben ar gyfer disgyblion neu 29%. Nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r risg hon.*

Ymateb yr ALI

Wrth ystyried proses yr achos busnes ar gyfer gwneud cais am gyllid, mae angen i Gyngor Sir Caerfyrddin ddangos i Lywodraeth Cymru bod angen darparu adeilad ysgol newydd o gapasiti perthnasol i Ysgol Gwenllian, a fydd yn addas i'r diben am flynyddoedd lawer. Cynhelir yr arfarniad economaidd ar gyfer yr adeilad ysgol newydd am gyfnod o 60 mlynedd a disgwyli'r byddai adeilad ysgol newydd yn addas i'r diben ac yn para am gyfnod o'r fath. Wrth ystyried y "ffactor ysgol newydd" y mae angen ei gymhwys i niferoedd disgyblion pan fydd ysgol newydd yn cael ei hadeiladu neu ei chwblhau i'w meddiannu (a ddangoswyd mewn nifer o ysgolion newydd yn Sir Gaerfyrddin), mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnig capaciti o 240 i sicrhau bod adeilad newydd yr ysgol yn addas i'r diben pan gaiff ei gwblhau ac yn y dyfodol.

2. *Mae'r Cyngor wedi rhestru nifer o ysgolion eraill sydd wedi eu heffeithio gan y cynnig hwn, ac wedi darparu data ar gyfer yr ysgolion hyn, gan gynnwys niferoedd presennol, niferoedd, capaciti a chyllideb arfaethedig. Nid yw unrhyw un o'r ysgolion hyn wedi cyrraedd eu capaciti, ac ni ddisgwylir iddynt fod felly dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Nid yw'r Cyngor wedi darparu unrhyw sylwadau ynghylch effaith y cynnig ar yr ysgolion hyn, fodd bynnag, mae'n ymddangos na fydd yn cael rhyw lawer o effaith ar fynd i'r afael â phroblem lleoedd dros ben ar draws yr awdurdod lleol.*

Ymateb yr ALI

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae'r Awdurdod Lleol wedi darparu rhestr o ysgolion y gallai hyn effeithio arnynt ac mae'n cynnwys yr ysgolion dalgylch cyfagos i Ysgol Gwenllian ac Ysgol Mynyddgarreg. Nid yw'n fwriad gan yr Awdurdod Lleol fod y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw ysgol arall, ond mae'n derbyn y gallai fod rhai goblygiadau anuniongyrchol o ganlyniad i ddewis rhieni.

O ran mynd i'r afael â lleoedd gwag ar draws y sir, mae'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad cyflawn o'i Raglen Moderneiddio Addysg sy'n cynnwys holl ysgolion y sir a bydd yn ystyried materion fel ysgolion gorlawn a lleoedd gwag.

3. *Mae'r Cyngor wedi cynnwys asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gyfer y ddwy ysgol, ac wedi nodi rhai meysydd y mae angen mynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â'r effaith ar y ddwy gymuned, er enghraifft mae wedi nodi bod Mudiad Meithrin yn defnyddio'r neuadd yn Ysgol Gynradd Mynyddgarreg ar hyn o bryd, ond ni chynigiwyd unrhyw gyfleusterau amgen yn yr ardal leol.*

Ymateb yr ALI

Petai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo a'i weithredu, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Cylch Meithrin i edrych ar y gwahanol opsiynau sydd ar gael iddynt.

4. Mae'r Cyngor wedi darparu asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd, sy'n ymddangos yn addas, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r asesiad hwn yn cyfeirio at y term hen ffasiwn, "yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd." Yn ychwanegol, mae'n ymddangos mai ychydig iawn o gyfeiriad sydd yn y ddogfen at sut bydd y cynnig yn effeithio ar ddisgyblion ag AAA.

Ymateb yr ALI

Bydd y term diweddaraf Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei ddefnyddio yn ein holl ddogfennau o'r pwynt hwn ymlaen.

Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. Bydd yr ysgol yn dal i gefnogi'r disgyblion hynny sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Ymgynghori â'r Disgyblion

Dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc

Darparwyd fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r Ddogfen Ymgynghori i'r ysgol i'w dosbarthu i bob disgybl.

Yn ogystal â'r digwyddiadau ymgynghori â disgyblion a nodir isod, derbyniwyd sylwadau disgyblion drwy'r ymgynghoriad cyffredinol a chawsant eu cynnwys yn y crynodeb o'r ymatebion a gafwyd a'r ymatebion cysylltiedig ag Awdurdodau Lleol, sydd i'w gweld ar dudalennau 5-24.

Digwyddiad Ymgynghori â Disgyblion

Ysgol: Ysgol Gynradd Mynyddgarreg

Dyddiad: 08/02/21

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan: Uwch-ymgynglhorydd Addysg

Y sawl a gafodd eu cyfweld: Aelodau o Gyngor yr Ysgol (a gynhaliwyd ar-lein)

Sylwadau a nodwyd yn ystod y Digwyddiad Ymgynghori â Disgyblion:

Cynhaliwyd cyfarfod rhithwir gydag aelodau o Gyngor Ysgol Mynyddgarreg ar 08.02.21.

Yn ogystal â'r Cyngor Ysgol, roedd y Pennaeth ac aelodau o'r staff yn bresennol.

Roedd gan bron bob disgybl riant yn yr un ystafell â nhw.

Darllenodd yr Ymgynghorydd Cymorth Addysg y pamffled i bawb gan sicrhau eu bod yn deall beth oedd yn cael ei drafod.

Dyma grynodeb o ymatebion y disgyblion:

- Roedd bron pawb wedi dweud eu bod yn teimlo'n drist bod yr ysgol yn cau ac nad oeddent am i hyn ddigwydd.
- Er hyn, dywedodd un disgybl ei bod yn beth da bod ysgol newydd yn cael ei hadeiladu gan fod yr ysgol yn hen.
- Soniodd llawer o'r disgyblion am yr adnoddau oedd ar gael yn y pentref e.e. y Neuadd Gymunedol.
- Dywedwyd bod mwy o gyfleoedd mewn ysgol fach e.e. yn ystod y Sioe Nadolig, heb i neb gael ei adael allan.
- Yn yr ysgol newydd, gan y byddai llawer mwy o ddisgyblion, byddai llai o gefnogaeth i'r disgyblion yn y dosbarth gan na fyddai'r staff yn gallu helpu pawb.

- Roedd rhai ohonynt yn hoffi'r ffaith eu bod yn gallu cerdded i'r ysgol i gadw'n heini a bod hyn hefyd yn helpu'r amgylchedd.
- Dywedodd un disgybl nad yr adeilad sy'n gwneud ysgol ond y bobl tu mewn iddi.
- Roedd rhai o'r disgyblion yn teimlo y byddai mwy o fwlio yn yr ysgol newydd gan y byddai mwy o ddisgyblion.
